

## CYFLWYNIADAU GRAMADEG CYMRAEG

Deunyddiau yw'r rhain i'r athro eu defnyddio yn y dosbarth i gyflwyno agwedd ar ramadeg. Fe'u rhestrwyd isod yn nhrefn y wyddor. Gall yr athro unigol ddewis ym mha drefn y bydd yn eu cyflwyno ond mae rhai cyflwyniadau'n 'perthyn' i'w gilydd, e.e. gall cyflwyniad 'Cryno / Cwmpasog' gael ei ddilyn gan gyflwyniadau 'Goddrych a Gwrthrych y Ferf' a 'Treiglo ar ôl berfau cryno a chwmpasog'; a gall 'Cenedl Enwau' gael ei ddilyn gan 'Dau a Dwy'.

Mae'r nodiadau'n cynnig syniadau o ran defnyddio'r cyflwyniadau, gyda rhai cwestiynau a fydd gobeithio'n ennyn meddwl a thrafod.

### CYNNWYS

	<b>Tudalen</b>
Berf / Berfenw	2
Berf / Goddrych / Gwrthrych / Adferf – Trefn y frawddeg	3
Byddwn / Byddaf (Amodol / Dyfodol)	4
Cadarnhaol / Negyddol	5-6
Cenedl Enwau	7-8
Cryno / Cwmpasog	9
Dau a Dwy	10
Goddrych a Gwrthrych y Ferf	11
Personau'r Ferf ac Arddodiaid	12
Treiglo ar ôl berfau cryno a chwmpasog	13

## **BERF / BERFENW**

1. Carwsél o gardiau. Pob cerdyn yn dangos llun, berf a berfenw – e.e. rhedais/rhedeg. Modd symud o'r naill gerdyn i'r llall. Gellir gofyn cwestiwn: "Oes gwahaniaeth rhwng y rhain – rhedais a rhedeg? Os felly – beth yw e?"
2. Sgrin gyda 'Berf' yn ei chanol a thair swigen wag.  
Gofyn: "Beth mae pob berf yn ei ddweud wrthon ni?"  
Gellir ysgrifennu ar y sgrin a dileu'r ysgrifen os oes angen.  
Ar ôl trafod, clicio ar y swigod yn eu tro i ddatgelu: Beth? / Pwy? / Pryd?  
Hynny yw, mae pob berf yn ateb y cwestiynau:  
"**Beth** sy'n digwydd?" "**Pwy** sy'n gwneud hyn?" "**Pryd** mae'n digwydd?"
3. – 6. Clicio ar y petryal gwyrdd i ddatgelu llun.  
Clicio ar y swigen yn y canol i ddatgelu – Berf / e.e. Rhedais  
Gellir ysgrifennu yn y swigod – ateb y cwestiynau:  
"**Beth** sy'n digwydd?" "**Pwy** sy'n gwneud hyn?" "**Pryd** mae'n digwydd?"  
Clicio ar 'Gwirio' i gael yr 'ateb'.  
Gofyn – "Beth yw'r rheol, tybed?"  
Clicio ar 'Rh' i gael y rheol.
7. Newid i drafod 'Berfenw'.  
Gofyn am gynigion i lenwi'r swigod – ysgrifennu'r atebion o dan y swigen.  
Gwirio drwy glicio ar y swigod eu hunain.  
Gofyn – "Beth yw'r rheol, tybed?"  
Clicio ar 'Rh' i gael y rheol.
8. Penderfynu beth sy'n ferf a beth sy'n ferfenw yn ôl yr hyn a ddysgwyd.  
Llusgo'r geiriau ar waelod y grid i'r hanner cywir.  
Clicio ar 'Gwirio' a bydd yr eitemau cywir yn troi'n wyrdd, y rhai anghywir yn goch.  
Gellid mynd drwy'r berfau i drafod a) person y ferf b) amser y ferf.

## **BERF / GODDRYCH / GWRTHRYCH / ADFERF – TREFN Y FRAWDDEG**

1. Cwestiwn i'w drafod ar y sgrin gyntaf – mae modd symud y blychau 'Ateb' gwyrdd i ddatgelu a yw cynigion y dysgwyr yn gywir ai peidio.

2. Dilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin – symud yr elfennau ar ben y sgrin i'r blychau ar y gwaelod, a gwasgu 'Gwirio' i weld a yw'r ateb yn gywir.

3. a 4. Llusgo'r elfennau i'r blychau cywir.

Trafod y cwestiwn – Oes rhywbeth yn bod ar y frawddeg hon? – ac os yw'r dosbarth yn cytuno bod, gofyn am gynigion o ran ei chywiro – ysgrifennu yn y blwch.

Gwirio yn y dull arferol.

Gofyn – “Beth yw'r rheol, tybed?”

Clicio ar 'Rh' i gael y rheol.

## **BYDDWN / BYDDAF (AMODOL / DYFODOL)**

1. Dilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin – cael digon o ddysgwyr i gynnig y rhesymau pam maen nhw'n grwpio gwahanol elfennau gyda'i gilydd.  
Trafod "Beth yw'r rheol, tybed?"  
Clicio ar 'Rh' i gael y rheol.
2. Llusgo'r terfyniadau i'r manau cywir. Trafod pob symudiad.  
Ateb y cwestiwn ar ben y sgrin – pam mae lliwiau'r terfyniadau'n wahanol i'w gilydd?  
Clicio ar 'Gwirio' pan fydd pawb yn hapus.  
Trafod a ydy'r dysgwyr wedi dod ar draws y terfyniadau hyn o'r blaen? (Yr Amherffaith)  
Clicio ar 'Rh' i gael y 'rheol' (er mai nodi'r terfyniadau a wneir mewn gwirionedd).
3. Grwpio elfennau eto yn ôl y cyfarwyddyd.  
Trafod beth sy'n cyfateb i beth a chlicio ar 'Rh'.
4. Llusgo'r terfyniadau cywir at y berfau cywir. Y tro hwn nid oes lliwiau i helpu'r dysgwyr.  
Gwirio fel arfer a chadarnhau drwy glicio ar 'Rh'.
5. Darllen enghraifft neu ddwy allan fel y maen nhw ar y sgrin – e.e. Dylwn i mynd / Allet ti darllen? - ydyn nhw'n gywir?  
Defnyddio'r llithrydd i weld beth sy'n digwydd.  
Trafod: Pa dreigladd sydd o dan sylw – pam rydych chi'n meddwl hyn?  
Trafod: Oes treigladd bob amser ar ôl yr amodol – h.y. beth am - 'Baswn i'n hoffi mynd?'  
Cadarnhau hyn drwy glicio ar 'Rh'.

## CADARNHAOL / NEGYDDOL

3 dewis yma ar ôl y Carwsél:

- a) Ar gyfer berfau anffurfiol yn unig – dilyn Sgriniau 2 – 4.
- b) Ar gyfer berfau ffurfiol yn unig – dilyn Sgriniau 5 – 8.
- c) Ar gyfer berfau anffurfiol a ffurfiol – dilyn y cyflwyniad cyfan.

1. Carwsél o luniau a geiriau sy'n cyfleu 'cadarnhaol a negyddol'.  
Gofyn i'r dysgwyr beth maen nhw'n meddwl yw arwyddocâd y lluniau a'r geiriau.
2. Berfau anffurfiol: Trafod beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'Es i' ac 'Es i ddim'.  
Mae'r geiriau 'Cadarnhaol' a 'Negyddol' o dan y ddau flwch perthnasol.
3. Defnyddio'r llithrydd i weld beth sy'n digwydd gyda berfau negyddol anffurfiol.  
Trafod beth sy'n digwydd – os yw'r dysgwyr yn penderfynu bod treigladd yn digwydd, pa dreigladd ydy e? Ydy pob berf yn treiglo'r un fath?  
Os oes angen, tynnu sylw at e.e. un ferf sy'n treiglo'n feddal ac un ferf sy'n treiglo'n llaes.  
Pan fydd y dysgwyr wedi penderfynu bod dau fath o dreigladd yn digwydd, gwasgu 'Grwpio' a dangosir berfau sy'n treiglo'n llaes a'r rhai sy'n treiglo'n feddal ar wahân. Tynnu sylw at ferfau sy'n dechrau â 'g' i'r dysgwyr sylweddoli bod 'g' yn cael ei gollwng.  
Trafod beth yw'r rheol, a chlicio ar 'Rh' i gael y rheol.
4. Gofyn i'r dosbarth ddweud ymlaen llaw sut bydd berf yn treiglo – yna, fesul berf, symud y llithrydd i lawr yn raddol.  
Trafod pa rai sy'n treiglo'n feddal a pha rai sy'n treiglo'n llaes – yna, fel uchod, gwasgu 'Grwpio'.  
Os oes angen, atgoffa'r dysgwyr am y rheol drwy wasgu 'Rh' – yr un fath â 3. uchod.

5. Berfau ffurfiol - Trafod beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'Gwelais' a 'Ni welais'. Mae'r geiriau 'Cadarnhaol' a 'Negyddol o dan y ddau betryal perthnasol.
  
6. Defnyddio'r llithrydd i weld beth sy'n digwydd gyda berfau negyddol ffurfiol. Trafod beth sy'n digwydd – os yw'r dysgwyr yn penderfynu bod treigladd yn digwydd, pa dreigladd ydy e? Ydy pob berf yn treiglo'r un fath? Os oes angen, tynnu sylw at e.e. un ferf sy'n treiglo'n feddal ac un ferf sy'n treiglo'n llaes. Pan fydd y dysgwyr wedi penderfynu bod dau fath o dreigladd yn digwydd ar ôl 'Ni', gwasgu 'Grwpio' a dangosir berfau sy'n treiglo'n llaes a'r rhai sy'n treiglo'n feddal ar wahân. Tynnu sylw at ferfau sy'n dechrau â 'g' – bod 'g' yn cael ei gollwng.
  
7. Symud y llithrydd fesul tipyn i lawr y sgrin – mae **5 pâr** o ferfau yma i gyd, yna'r rheol ar y gwaelod. Gofyn y cwestiwn – pam mae **Ni** ar un ochr y sgrin a **Nid** ar y llall? Os yw'r dysgwyr yn dweud mai 'llafariaid' yw'r rheswm – pam felly nad oes **Nid** o flaen 'wariais' – ceisio dod â nhw i weld bod hyn oherwydd mai 'gwariais' (cytsain yw **g**) oedd y ffurf wreiddiol.
  
8. Trafod ai 'Ni' neu 'Nid' sy'n mynd o flaen y berfau. Mae'n debyg y bydd 'wylodd' a 'wylodd' yn destun trafod. Gwasgu 'Gwirio' i weld a yw'r atebion yn gywir.

## CENEDL ENWAU

1. Carwsél – trafod y parau o luniau – buwch/tarw; dafad/hwrdd; iâr/ceiliog ...  
Beth yw'r gwahaniaeth rhwng dwy elfen y parau?
2. Gofyn am y geiriau Cymraeg am y ddau lun. Ysgrifennu yn y blwch.  
Gwirio drwy symud y lluniau – 'brigyn' a 'deilen' yn ymddangos.
3. Trafod: Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau air – brigyn a deilen?  
Atgoffa'r dysgwyr am y lluniau ar ddechrau'r cyflwyniad.  
Ar ôl derbyn atebion, symud y lluniau – 'y brigyn hwn' a 'y ddeilen hon' yn ymddangos.  
Trafod: Beth yw'r gwahaniaeth felly rhwng 'hwn' a 'hon'?  
Ar ôl trafod, gwasgu 'Gwirio' a bydd 'y brigyn hwn' yn troi'n las a bydd 'y ddeilen hon' yn troi'n binc. Sôn (os na fydd y geiriau hyn wedi codi'n barod) am 'gwrywaidd' a 'benywaidd'.
4. Symud y lluniau ar y chwith i'r sgrin wen. Gofyn am enwau'r lluniau.  
Defnyddio'r ysgrifbin i nodi'r enwau: deilen / dail // brigyn / brigau.  
Os bydd angen Help, mae'r geiriau'n ymddangos yn y blwch o dan y sgrin ac mae modd symud pob gair o dan y llun perthnasol.  
Trafod: Beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'deilen' a 'dail'? Yna – 'brigyn' a 'brigau'?  
Nodi 'unigol' neu 'lluosog' ar y bwrdd wrth bob gair.
5. Symud y llithrydd i ddangos beth sy'n digwydd wrth roi'r fannod 'y' o flaen y geiriau (unigol) ar y chwith. Trafod y gwahaniaeth:  
Pam mae rhai geiriau'n newid?  
Beth sy'n digwydd i'r geiriau sy'n newid?  
Gwasgu 'Gwirio' a bydd rhai geiriau'n troi'n binc, ac eraill yn troi'n las? Pam?  
Trafod 'Beth yw'r rheol, felly?'  
Wedyn, pan fydd y drafodaeth ar ben – gwasgu 'Rh' i gael y rheol.

6. Symud y llithrydd i ddangos beth sy'n digwydd wrth roi'r fannod 'y' o flaen y geiriau ar y chwith. Trafod y gwahaniaeth rhwng y sgrin hon a'r un flaenorol. Pam nad yw'r geiriau'n newid? Roedd rhai ohonyn nhw'n newid o'r blaen! Gwasgu 'Gwirio' a bydd rhai geiriau'n troi'n binc, ac eraill yn troi'n las? Pam? Trafod 'Beth yw'r rheol, felly?'
- Wedyn, pan fydd y drafodaeth ar ben – gwasgu 'Rh' i gael y rheol.



## **CRYNO / CWMPASOG**

1. Carwsél sy'n cyfleu
  - a) un uned ar ei phen ei hun
  - b) mwy nag un uned.
  
2. Trafod y geiriau sydd o dan y lluniau a'u llusgo fesul un i'r llun cywir.  
Tynnu sylw'n arbennig at 'cryno' a 'cwmpasog'. Dyma'r geiriau rydyn ni'n eu defnyddio ym maes gramadeg.
  
3. Trafod pa ferf yw'r un gryno a pha ferf yw'r un gwmpasog.  
Llusgo 'Rhedodd' a 'Mae e wedi rhedeg' o'r neilltu i ddatgelu'r atebion.
  
4. Llusgo'r berfau ar waelod y sgrin fesul un i'r golofn gywir. Trafod pam mae'r dysgwr/dysgwyr wedi penderfynu ar y golofn hon. Bydd y berfau cywir yn troi'n wyrdd, a'r rhai anghywir yn troi'n goch.  
Gofyn i'r dysgwyr am ragor o enghreifftiau o ferfau cryno / cwmpasog.

## DAU A DWY

1. Gweithio fel dosbarth neu ofyn i unigolion ddod i deipio: rhoi'r geiriau am y lluniau. Symud drwy ddefnyddio'r botymau **yn y canol** – dwy gadair; dau fwrdd/dwy ford; dau fag; dwy bunt; dwy droed; dau lyfr.
2. Trafod beth yw'r rheol . O dan y ddau rif '2' mae 'dwy' a 'dau' uwchben y lluniau perthnasol. Trafod 'gwrywaidd' a 'benywaidd' (ac os yw 'Cenedl Enwau' eisoes wedi'i gyflwyno, cyfeirio at y cyflwyniad hwnnw).  
Gwirio a yw'r dosbarth wedi dod i'r casgliad cywir drwy wasgu 'Rh'.
3. Ceir botwm 'Cyfarwyddiadau' i egluro bod eisiau llusgo'r geiriau naill ai i golofn 2 neu golofn 4, yn ôl a ydyn nhw'n wrywaidd neu'n fenywaidd.  
**Os** yw'r cyfan yn gywir, ar ôl gwasgu 'Gwirio', bydd dau lithrydd yn ymddangos.  
Llithro – 'Beth sy'n digwydd?' 'Beth yw'r enw ar y newid yma?'  
'Beth yw'r rheol, tybed?'  
Pan fydd y drafodaeth wedi dod i derfyn, gwasgu 'Rh' i weld y rheol. Oedd y dosbarth yn gywir?
4. Ailadrodd hyn eto gyda set newydd o eiriau – y tro hwn, wrth ddefnyddio'r llithrydd, gofyn i'r dosbarth ragweld y treiglo fesul gair.  
Nid yw 'y ddau' ac 'y ddwy' yn cael sylw yn y cyflwyniad ei hun, ond gellid mynd ati i'w drafod gyda'r geiriau ar Sgriniau 3 a 4.

## GODDRYCH A GWRTHRYCH Y FERF

1. Trafod y sgrin hon â'r dosbarth gan ofyn y cwestiynau sy'n ymddangos arni.  
Mae modd llusgo 'Ateb' o'r neilltu i ddatgelu'r ateb cywir bob tro.  
Ceir eglurhad byr a rhagor o gwestiynau o dan 'Rh'.
2. -5. Yn hytrach na gweithio drwy'r sgriniau hyn gan lusgo'r atebion i'r manau cywir , gellid cael y dosbarth hefyd i egluro eto beth yw 'goddrych' a 'gwrthrych' nes bod y diffiniad yn eglur yn eu cof. Dylid tynnu sylw hefyd at y ffaith fod y 'goddrych' yn gallu bod ymhlyg yn y ferf – e.e. Gwelaf goeden. Nid yw'r goddrych 'i' yma.  
Ar sgrin 5, mae enghraifft o ferf gwmpasog, yn hytrach na berf gryno. Gellid trafod y gwahaniaeth rhwng y ferf hon a'r berfau blaenorol.  
Mae modd 'Gwirio' drwy wasgu'r botwm ar y gwaelod.

## PERSONAU'R FERF AC ARDDODIAID

1. Carwsél o gardiau. Pob cerdyn yn dangos llun o berson neu bersonau – unigolion neu grwpiau. Gellir gofyn cwestiynau fel hyn:  
“Beth yw pwrpas / diben / arwyddocâd y lluniau hyn?”  
“Am beth dwi eisiau i chi feddwl, tybed?”
2. Parhau'r drafodaeth ar y sgrin hon. Mae modd llusgo'r llun ar y chwith i ddatgelu'r gair 'unigol' a'r llun ar y dde i ddatgelu'r gair 'lluosog'.
3. Penderfynu ble mae'r rhagenwau i gyd yn perthyn (dim angen defnyddio'r gair 'rhagenwau' os nad yw eisoes yn hysbys i'r dysgwyr). Eu llusgo i'r golofn gywir - geiriau gwyrdd = cywir, geiriau coch = anghywir. Does dim rhaid iddyn nhw fod yn y drefn (1af unigol ac ati) eto.
4. Mae modd trafod y cwestiynau canlynol:  
“Pa un yw'r cyntaf unigol, tybed?” “Pam wyt ti'n meddwl hynny?”  
“Beth yw ystyr 'gwr.' a 'ben.'?”  
Eto, bydd y rhagenwau'n troi'n wyrdd o'u gosod yn y man cywir.
5. Ar y sgrin hon mae angen rhoi'r arddodiad 'at' wedi'i redeg yn y drefn gywir.
6. Yma, bydd eisiau rhoi rhediad gorffennol y ferf 'bwyta' yn y drefn gywir.

Ar ôl mynd drwy sgriniau 4, 5 a 6 unwaith, gellid herio'r dysgwyr (o bosib mewn timau) i osod y rhagenwau/arddodiaid/berfau yn eu trefn gywir heb i unrhyw un ohonyn nhw droi'n goch.

## TREIGLO AR ÔL BERFAU CRYNO A CHWMPASOG

*Awgrymir y dylid cyflwyno 'Cryno / Cwmpasog' (t.9) cyn y cyflwyniad hwn.*

1. Carwsél o wrthrychau – gellid mynd drwyddynt a'u henwi.
2. Trafod beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddwy ferf ar y sgrin.  
Mae modd llusgo'r blychau i ddatgelu 'cryno' a 'cwmpasog'.  
Adolygu ystyr y termau hyn.
3. Trafod a yw'r brawddegau hyn yn gywir:  
"Cefais i coffi" / "Cefais i te" ac ati.  
Mae modd llusgo'r llun o'r neilltu ac mae'r gair wedi'i dreiglo oddi tano bob tro. Trafod beth sydd wedi digwydd i'r geiriau 'coffi', 'te', 'pasta', 'brechdan'.  
Os bydd y dosbarth yn awgrymu bod treigladd wedi digwydd, gofyn pa dreigladd, tybed pam mae e'n digwydd yma?
4. Trafod y brawddegau hyn – a rhagweld beth fydd y treigladd, efallai – modd llusgo'r lluniau o'r neilltu eto.  
Gofyn beth sy'n debyg am y berfau 'Cefais' (Sgrin 3) a 'Prynodd e/hi' (Sgrin 4) i weld a yw'r dysgwyr yn dal i gofio'r gair 'cryno'.
5. Rhagweld a thrafod beth sy'n digwydd ar y sgrin hon – a fydd treigladd y tro hwn? Pam? / Pam lai?  
Pa fath o ferfau yw "Rwyf i wedi cael" a "Mae hi wedi prynu"?
6. Parau o frawddegau – cryno / cwmpasog - i dynnu sylw at y rheol.  
Trafod beth allai'r rheol ar waelod y sgrin fod, e.e. clod i'r parau sydd agosaf at y rheol sydd ar y sgrin.

**UNEDAU RHYNGWEITHIOL GRAMADEG CYMRAEG  
CRYNODEB O GYNNWYS GRAMADEGOLYR UNEDAU**

**1. RHAGENWAU**  
**Thema: Delwedd**

**CA3**

- Ymarfer 1 – Dod o hyd i ragenwau mewn darn byr
- Ymarfer 2 – Cywiro gwallau syml wedi'u tanlinellu
- Ymarfer 3 – Labelu lluniau gan ddefnyddio 'fy', 'dy', 'ei'(gwr/ben)
- Ymarfer 4 – Llenwi'r bylchau a threiglo ar ôl rhagenwau blaen un./lluos.
- Ymarfer 5 – Ymarfer llenwi bylchau – 'ei' neu 'eu'

**CA4**

- Ymarfer 1 – 'h' cyn llafariaid ar ôl 'ei', 'ein', 'eu'
- Ymarfer 2 – Rhagenwau mewnol – colofnau i'w llenwi a chywiro darn
- Ymarfer 3 – Rhagenwau mewnol – cyfateb colofnau ac aildrefnu brawddegau
- Ymarfer 4 – Llenwi bylchau – adolygu deunydd CA3 a CA4
- Ymarfer 5 – Cywiro – adolygu deunydd CA3 a CA4

**2. CENEDL ENWAU**  
**Thema: Y Jyngl**

**CA3**

- Ymarfer 1 – Enw benywaidd yn treiglo'n feddal ar ôl y fannod.
- Ymarfer 2 – Ansoddair yn treiglo'n feddal ar ôl enw benywaidd
- Ymarfer 3 – Cliwiau i adnabod cenedl enwau – terfyniadau '-en' / '-yn'
- Ymarfer 4 – Treiglo enw benywaidd ar ôl 'un' yn feddal
- Ymarfer 5 – Treigladau meddal ar ôl 'dau', 'dwy', hefyd 'y ddau', 'y ddwy'

**CA4**

- Ymarfer 1 – Hwn, Hon, Hyn
- Ymarfer 2 – Cliwiau i adnabod cenedl enwau
- Ymarfer 3 – Gwrywaidd neu Fenywaidd? Cywir neu Anghywir
- Ymarfer 4 – 'Tri' a 'Tair' – Treigladau llaes ar ôl 'tri'
- Ymarfer 5 – Llenwi Bylchau - adolygu deunydd CA3 a CA4

**3. ARDDODIAID**  
**Thema: Byd teledu**

**CA3**

- Ymarfer 1 – Arddodiaid yn dilyn berfenwau - sylfaenol
- Ymarfer 2 – Rhedeg arddodiaid
- Ymarfer 3 – Llenwi bylchau – arddodiaid ar ôl berfenwau + wedi'u rhedeg
- Ymarfer 4 – Treigladau ar ôl arddodiaid - Meddal
- Ymarfer 5 – 'yn' neu 'mewn'?

**CA4**

- Ymarfer 1 – Arddodiaid yn dilyn berfenwau – mwy cymhleth
- Ymarfer 2 – Treigladau ar ôl arddodiaid – Meddal, Trwynol, Llaes
- Ymarfer 3 – Arddodiaid cyfansawdd
- Ymarfer 4 – Arddodiad ar ddiwedd cymal
- Ymarfer 5 – Llenwi bylchau - adolygu deunydd CA3 a CA4

**4. GORFFENNOL /AMHERFFAITH**

**Thema: Hanes a chwedlau**

**CA3**

- Ymarfer 1 – Adnabod berfau rheolaidd yn yr amser gorffennol
- Ymarfer 2 – Llenwi bylchau – berfau rheolaidd yn yr amser gorffennol
- Ymarfer 3 – Ffurfiâu'r gorffennol: mynd, dod, gwneud, cael
- Ymarfer 4 – Treiglo gwrthrych berf gryno'n feddal – adnabod y treigladd
- Ymarfer 5 – Llenwi bylchau – adolygu deunydd CA3

**CA4**

- Ymarfer 1 – Cyflwyniad i'r amherffaith + ymarfer y ffurf gwmpasog
- Ymarfer 2 – Ffurf gryno'r amherffaith – adnabod y ffurf
- Ymarfer 3 – Ffurf gryno'r amherffaith – llenwi tabl (8 berf)
- Ymarfer 4 – Trosi o ffurf gwmpasog yr amherffaith i'r ffurf gryno
- Ymarfer 5 - Defnyddio ffurfiâu'r amherffaith – cwmpasog (roedd, byddai) + cryno

**5. NEGYDDU**

**Thema: Rygbi**

**CA3**

- Ymarfer 1 – Negyddu brawddegau yn yr amser presennol
- Ymarfer 2 – Negyddu brawddegau yn yr amser amherffaith
- Ymarfer 3 – Negyddu brawddegau yn yr amser dyfodol
- Ymarfer 4 - Negyddu brawddegau yn yr amser gorffennol + treigladd meddal a llaes
- Ymarfer 5 – Brawddegau pwysleisiol negyddol

**CA4**

- Ymarfer 1 – Cywiro gwallau – adolygu deunydd CA3
- Ymarfer 2 – Patrwm negyddol – dylwn, gallwn, hoffwn
- Ymarfer 3 – Patrwm negyddol yr amodol
- Ymarfer 4 – Trosi o batrymau anffurfiol negyddol i batrymau ffurfiol
- Ymarfer 5 – Cywiro gwallau – ffurfiâu negyddol ffurfiol

**6. SILLAFU**

**Thema: Ar y fferm (gêm yn unig)**

**CA3**

- Ymarfer 1 – f a ff
- Ymarfer 2 – Ansoddeiriau -us
- Ymarfer 3 – Acen grom
- Ymarfer 4 – Geiriau'n gorffen ag 'y'
- Ymarfer 5 – Dyblu 'n' ac 'r'

**CA4**

- Ymarfer 1 – 'yw' neu 'i'w'
- Ymarfer 2 – '-au' ar ddiwedd enw llyuosog, '-ai' ar ddiwedd berf
- Ymarfer 3 – Patrymau sillafu berfenwau
- Ymarfer 4 – Manion sillafu – '-âu' ac '-áu'
- Ymarfer 5 – Manion sillafu – 'mae' neu 'mai', '-iaeth' neu '-iaith'

## 7. CWESTIYNAU

### Thema: Y gemau Olympaidd

#### CA3

Ymarfer 1 – Cwestiynau yn yr amser presennol

Ymarfer 2 – Cwestiynau yn yr amser dyfodol

Ymarfer 3 – Cwestiynau yn yr amser gorffennol

Ymarfer 4 – Treigladd meddal ar ôl ‘Beth’, ‘Pwy’, ‘Faint’ ‘Sawl + enw’, ‘Pa?’

Ymarfer 5 – Ateb cwestiynau: presennol, dyfodol, gorffennol

#### CA4

Ymarfer 1 – Cwestiynau yn yr amser amherffaith

Ymarfer 2 – Cwestiynau pwysleisiol

Ymarfer 3 – Cwestiynau ag arddodiaid

Ymarfer 4 – Cwestiynau ffurfiol ac anffurfiol – Treigladd meddal ar ôl ‘A..?’

Ymarfer 5 – Ateb cwestiynau – deunydd CA3 + amherffaith, amodol, pwysleisiol

## 8. DYFODOL / AMODOL

### Thema: Y gofod

#### CA3

Ymarfer 1 – Y dyfodol – adnabod ffurfiau

Ymarfer 2 – Y dyfodol – llenwi bylchau

Ymarfer 3 – Y dyfodol – cywiro brawddegau

Ymarfer 4 – Y presennol ‘arferiadol’ – llunio brawddegau

Ymarfer 5 – Y dyfodol – cywir neu anghywir

#### CA4

Ymarfer 1 – Cyfleu amod (Byddwn/Baswn/Buaswn)– llunio brawddegau

Ymarfer 2 – Cyfleu amod – petawn / pe bawn/ pe buaswn – llenwi bylchau

Ymarfer 3 – Cymariaethau – fel petawn...

Ymarfer 4 – Hoffwn / dylwn / gallwn + treiglo’r ferf yn feddal

Ymarfer 5 – Adolygu deunydd CA4 – Cyfleu amod

## 9. TREIGLADAU

### Thema: Rasio ceir

#### CA3

Ymarfer 1 – Treigladd Trwynol ar ôl yr arddodiad ‘yn’

Ymarfer 2 – Treigladd Meddal – enwau ac ansoddeiriau ar ôl ‘yn’

Ymarfer 3 – Cyfuno’r holl dreigladau ar ôl ‘yn’

Ymarfer 4 – Treigladd Llaes ar ôl y cysylltair ‘a’ a’r arddodiad ‘â’

Ymarfer 5 – Treigladd Meddal ar ôl ‘pan’ a ‘neu’

#### CA4

Ymarfer 1 – Treigladd Meddal ar ôl y rhagenw perthynol ‘a’

Ymarfer 2 – Cyfuno’r treigladau ar ôl y cysylltair ‘a’ a’r rhagenw perthynol ‘a’

Ymarfer 3 – ‘canrif’ – treiglo ar ôl y fannod ac ar ôl trefnolyn

Ymarfer 4 - Llenwi bylchau - adolygu deunydd CA3 a CA4

Ymarfer 5 – Cywiro - adolygu deunydd CA3 a CA4



## YMARFERION SY'N YMDRIN Â THREIGLADAU PENODOL

<b>TREIGLAD MEDDAL</b>	
<b>Rheol</b>	<b>Ymarfer</b>
Enw benywaidd yn treiglo'n feddal ar ôl y fannod	Cenedl Enwau – CA3 – Ymarfer 1
Ansoddair yn treiglo'n feddal ar ôl y fannod	Cenedl Enwau – CA3 – Ymarfer 2
Ar ôl y rhagenw 'dy'	Rhagenwau – CA3 – Ymarfer 3 (ail ran) Rhagenwau – CA3 – Ymarfer 4 (fy, dy, ei)
Ar ôl y rhagenw 'ei' (gwrywaidd)	Rhagenwau – CA3 – Ymarfer 3 (trydedd ran) Rhagenwau – CA3 – Ymarfer 4 (fy, dy, ei)
Ar ôl 'th / 'i / 'w (gwrywaidd)	Rhagenwau – CA4 – Ymarfer 2
Ar ôl yr arddodiaid: am, ar, at, dan, dros, drwy, heb, i, o, wrth, gan, hyd	Arddodiaid – CA3 – Ymarfer 4 Arddodiaid – CA4 – Ymarfer 2 (pob treigladau ar ôl arddodiaid)
Ar ôl y rhifolyn 'un' (benywaidd)	Cenedl Enwau – CA3 – Ymarfer 4
Ar ôl y rhifolion 'dau' a 'dwy'	Cenedl Enwau – CA3 – Ymarfer 5
Enwau ac ansoddeiriau ar ôl y traethiad 'yn'	Treigladau – CA3 – Ymarfer 2 a 3
Gwrthrych berf gryno	Gorffennol/Amherffaith – CA3 – Ymarfer 4 Gorffennol/Amherffaith – CA4 – Ymarfer 4 Dyfodol/Amodol – CA4 – Ymarfer 4 (hoffwn, dylwn, gallwn)
Ar ôl y cysylltair 'neu'	Treigladau – CA3 – Ymarfer 5
Ar ôl 'Pa...?'	Cwestiynau – CA3 – Ymarfer 4
Ar ôl y rhagenw perthynol 'a'	Treigladau – CA4 – Ymarfer 1 Treigladau – CA4 – Ymarfer 2 (+ 'a' + Llaes)
Ar ddechrau pob cwestiwn mewn arddull anffurfiol	Cwestiynau – CA3 – Ymarfer 2 (dyfodol - anffurfiol) Cwestiynau – CA3 – Ymarfer 3 (gorffennol - anffurfiol)
Ar ôl yr 'A...?' sydd ar ddechrau cwestiynau mewn arddull ffurfiol	Cwestiynau – CA4 – Ymarfer 4
Ar ôl 'pan'	Treigladau – CA3 – Ymarfer 5
Ar ddechrau berfau negyddol mewn arddulliau anffurfiol	Negyddu – CA3 – Ymarfer 3 (dyfodol) Negyddu – CA3 – Ymarfer 4 (gorffennol) Negyddu – CA4 – Ymarfer 1
Ar ôl 'ni' (negyddol) mewn arddulliau ffurfiol	Negyddu – CA4 – Ymarfer 2 (ni ddylwn, ni allwn..) Negyddu – CA4 – Ymarfer 3 (amodol) Negyddu – CA4 – Ymarfer 4 (rhai enghreifftiau) Negyddu – CA4 – Ymarfer 5 (rhai enghreifftiau)
Enwau benywaidd ar ôl trefnolion – 'canrif'	Treigladau – CA4 – Ymarfer 3

<b>TREIGLAD TRWYNOL</b>	
<b>Rheol</b>	<b>Ymarfer</b>
Ar ôl y rhagenw 'fy'	Rhagenwau – CA3 – Ymarfer 1 (rhan gyntaf) Rhagenwau – CA3 – Ymarfer 4 (fy, dy, ei)
Ar ôl yr arddodiad 'yn'	Treigladau – CA3 – Ymarfer 1 a 3 Arddodiaid – CA4 – Ymarfer 2 (pob treigladau ar ôl arddodiaid)

<b>TREIGLAD LLAES</b>	
<b>Rheol</b>	<b>Ymarfer</b>
Ar ôl y rhifolyn 'tri'	Cenedl Enwau – CA4 – Ymarfer 4
Ar ôl y cysylltair 'a'	Treigladau – CA3 – Ymarfer 4 Treigladau – CA4 – Ymarfer 2 (+ 'a' + Meddal)
Ar ôl yr arddodiad 'â'	Treigladau – CA3 – Ymarfer 4 Arddodiaid – CA4 – Ymarfer 2 (pob treigladau ar ôl arddodiaid)
Ar ôl y rhagenw 'ei' (benywaidd)	Rhagenwau – CA3 – Ymarfer 3 (pedwaredd ran) Rhagenwau – CA3 – Ymarfer 4 (fy, dy, ei)
Ar ôl 'th / 'i / 'w (benywaidd)	Rhagenwau – CA4 – Ymarfer 2

## ATEBION YMARFERION CYFNOD ALLWEDDOL 3

### CYNNWYS

	<b>Tudalennau</b>
1. <b>RHAGENWAU</b> Thema: Delwedd	2-4
2. <b>CENEDL ENWAU</b> Thema: Y Jyngl	5-8
3. <b>ARDDODIAID</b> Thema: Byd teledu	9-12
4. <b>Y GORFFENNOL</b> Thema: Hanes a chwedlau	13-17
5. <b>NEGYDDU</b> Thema: Rygbi	18-22
6. <b>SILLAFU</b> Thema: Ar y fferm (gêm yn unig)	23-24
7. <b>CWESTIYNAU</b> Thema: Y gemau Olympaidd	25-27
8. <b>Y DYFODOL</b> Thema: Y gofod	28-29
9. <b>TREIGLADAU</b> Thema: Rasio ceir	30-32

### Rhagenwau Ymarfer 1

Ddydd Sadwrn, es i siopa dillad gyda fy ffrind Marc. Rwy'n hoffi ei ddillad e'n fawr iawn ac roeddwn i eisiau prynu rhai tebyg. Roedd e'n gwisgo jîns, crys gwyn, siaced ledr a bŵts brown fel rhai cowboi.

“Ble prynaist di dy siaced ledr, Marc?” gofynnais.

“Fy mam brynodd hi i fi,” atebodd Marc.

“Dw i'n hoffi ei dewis hi,” meddwn i.

“Mae ein teulu ni'n dda am ddewis dillad,” meddai Marc. “Roedd siop ddillad fach yn arfer bod gyda ni, a dweud y gwir.”

“Ble roedd eich siop chi?” gofynnais.

“Yn Aberystwyth, yn y stryd fawr. Mam-gu a tad-cu oedd yn ei rhedeg hi.

Penderfynon nhw gau tua deng mlynedd yn ôl. Ar ôl i'r siopau ffasiwn ddod i'r dref, doedd eu busnes nhw ddim yn dda iawn.”

“Dyna drueni. Ond dwed – ble cest ti dy jîns?”

“A-ha, mae hi'n mynd i fod yn anodd i ti gael jîns fel y rhain – yn Sbaen ces i nhw!”

<b>fy</b>	<b>dy</b>	<b>ei</b> (gwrywaidd)	<b>ei</b> (benywaidd)	<b>ein</b>	<b>eich</b>	<b>eu</b>
2	<b>2</b>	<i>1</i>	2	<i>1</i>	<i>1</i>	<i>1</i>

### Rhagenwau Ymarfer 2

1. ein cwmni / ein cwmni ni
2. ein dylunydd / ein dylunydd ni
3. ei syniadau / ei syniadau e / ei syniadau o
4. fy modelau / fy modelau i
5. eich dillad / eich dillad chi
6. eu ffasiwn / eu ffasiwn nhw
7. dy ffrindiau / dy ffrindiau di
8. eu syniadau / eu syniadau nhw
9. dy wardrob ffasiwn / dy wardrob ffasiwn di
10. fy eitemau / fy eitemau i
11. (a) ein siop / ein siop ni (b) ei ffeindio/ ei ffeindio hi.
12. ei help / ei help e / ei help o
13. ein gwefan / ein gwefan ni

### Rhagenwau Ymarfer 3

#### LLUN 1 - fy

- fy **nghot** / fy **nghot** i
- fy **ngwallt** / fy **ngwallt** i
- fy **nhrowsus** / fy **nhrowsus** i
- fy **menig** / fy **menig** i
- fy **het** / fy **het** i\*
- fy **mag** / fy **mag** i
- fy **nwylo** / fy **nwylo** i
- fy **mhen** / fy **mhen** i
- fy **sgarff** / fy **sgarff** i
- fy **mŵts** / fy **mŵts** i

## **LLUN 2 - dy**

dy grys / dy grys di  
dy drowsus / dy drowsus di  
dy law / dy law di  
dy fysedd / dy fysedd di  
dy wregys / dy wregys di  
dy farf / dy farf di  
dy datw / dy datw di  
dy fodrwy / dy fodrwy di  
dy boced / dy boced di  
dy ddiemwnt / dy ddiemwnt di

## **LLUN 3 - ei (gwr)**

ei geg / ei geg e / ei geg o  
ei drwyn / ei drwyn e / ei drwyn o  
ei ben / ei ben e / ei ben o  
ei foch / ei foch e / ei foch o  
ei ddannedd / ei ddannedd e / ei ddannedd o  
ei ên / ei ên e / ei ên o  
ei glust / ei glust e / ei glust o  
ei dalcen / ei dalcen e / ei dalcen o  
ei wallt / ei wallt e / ei wallt o  
ei lygad / ei lygad e / ei lygad o  
ei rychau / ei rychau e / ei rychau o

## **LLUN 4 - ei (ben)**

ei cheg / ei cheg hi  
ei thrwyn / ei thrwyn hi  
ei phen / ei phen hi  
ei chlust / ei chlust hi  
ei choes / ei choes hi  
ei thraed / ei thraed hi  
ei phersawr / ei phersawr hi  
ei throwsus / ei throwsus hi  
ei bag / ei bag hi  
ei gwallt / ei gwallt hi

## **Rhagenwau Ymarfer 4**

BRAWD mrawd / mrawd i  
PEN mhen / mhen i  
DELWEDD nelwedd / nelwedd i  
DILLAD ddillad / ddillad di  
TROWSUS drowsus / drowsus di  
CRYS grys / grys di  
GWISG wisg / wisg di  
DELWEDD ddelwedd / ddelwedd e / ddelwedd o  
DILLAD ddillad / ddillad e / ddillad o  
NEWID newid  
GWALLT wallt / wallt e / wallt o  
CARIAD gariad  
PERSAWR phersawr

COLUR **cholur**  
TROWSUS **throwsus**

### **Rhagenwau Ymarfer 5**

#### **Aled**

Aled yw'r un mwyaf cŵl yn y criw. Mae e'n dweud bod .....ei..... dillad e'n dod o siopau elusen. Ond dydw i ddim yn .. ei..... gredu e. Os edrychi di ar ...ei.... siwmperi e, rwy'ti'n gallu gweld ....eu..... bod nhw'n newydd. Dw i'n credu ....ei.....fod e'n prynu popeth mewn siopau drud!

#### **Megan a Siwan**

Gefeilliaid yw Megan a Siwan, ond dydy ....eu..... dillad nhw ddim yn debyg o gwbl. Doedd ....eu..... mam nhw ddim yn ....eu..... gwisgo nhw yr un peth pan oedden nhw'n ferched bach, chwaith. Felly dydyn nhw byth yn gwisgo dillad ....ei..... gilydd. Mae Megan yn gwisgo dillad ffynsi a lliwgar ond mae Siwan yn gwisgo lliwiau tawel – mae ....ei..... delwedd hi'n hollol wahanol i un Megan.

#### **Owain**

Owain yw 'dyn y siop elusen'. Dw i'n meddwl weithiau ....ei..... fod e'n gwisgo dillad ....ei..... daid e! Ond mae ....ei..... esgidiau e mor ddoniol – mae ....eu..... sodlau nhw'n uchel ac mae dwy droed Owain yn baglu dros ....ei..... gilydd o hyd!

## Cenedl Enwau Ymarfer 1

\* = benywaidd

\*coeden

\*cangen

aderyn

\*deilen

morghugyn

llwybr

boncyff

parot

lindysyn

mwnci

blodyn

haul

\*malwoden

\*neidr

\*madfall

\*llygoden

\*cynffon

\*chwilen

\*banana

coeden	<b>y goeden hon</b>
aderyn	<b>yr aderyn hwn</b>
deilen	y ddeilen hon
chwilen	y chwilen hon
llwybr	y llwybr hwn
llygoden	y llygoden hon
parot	y parot hwn
neidr	y neidr hon
cangen	y gangen hon
mwnci	y mwnci hwn
blodyn	y blodyn hwn
malwoden	y falwoden hon
lindysyn	y lindysyn hwn
madfall	y fadfall hon
boncyff	y boncyff hwn
cynffon	y gynffon hon
haul	yr haul hwn
broga	y broga hwn
banana	y fanana hon

## Cenedl Enwau Ymarfer 2

Y Jyngl

Mae'r haul **mawr, melyn**  
yn disgleirio'n boeth  
ar y jyngl .....**lliwgar**..... heddiw.

Pob coeden .....**dal**..... yn chwysu chwartiau,  
pob deilen ....**fach**.... yn crynu  
yn y gwres ....**grymus**...  
sy'n pwysu'n drwm ar bopeth.

Mae'r parot ....**poeth**.... yn crawcian yn aflafar,  
gan gwyno wrth y fadfall ...**gysglyd**...  
sy'n gorweddian yn ddiog  
ar y gangen .....**gnotiog, galed**..... .

Mae'r neidr ...**dwyllodrus**... yn cuddio  
yn y cysgod, gan ddisgwyl llarpio  
rhyw lygoden ...**flinedig**...  
neu froga ...**mentrus**...  
cyn i'r haul .....**mawr, melyn**.....  
lithro i lawr yr awyr ....**las**....  
y tu ôl i'r gorwel .....**gwyrdd**...

## Cenedl Enwau Ymarfer 3

coeden	<b>benywaidd</b>
lindysyn	gwrywaidd
hedyn	gwrywaidd
cwningen	benywaidd
llygoden	benywaidd
pry copyn	gwrywaidd
bachgen	gwrywaidd
palmwydden	benywaidd
morgrugyn	gwrywaidd
mwydyn	gwrywaidd
derwen	benywaidd
deilen	benywaidd
telyn	benywaidd
aderyn	gwrywaidd
malwoden	benywaidd
brigyn	gwrywaidd
cragen	benywaidd
blwyddyn	benywaidd
blodyn	gwrywaidd
seren	benywaidd
hwyaden	benywaidd

1. ddisglair
2. merlyn / ferlen



3. pysgodyn
4. goeden fawr / bach glas
5. prin.
6. falwoden / liwgar
7. mwydyn / mawr
8. gwningen / fach
9. bachgen
10. pryfyn glas / ddeilen / brigyn

#### **Cenedl Enwau Ymarfer 4**

un goeden  
 un gangen  
 un ddeilen  
 un morgrugyn  
 un llwybr  
 un boncyff  
 un parot  
 un lindysyn  
 un mwnci  
 un blodyn  
 un haul  
 un falwoden  
 un arth  
 un neidr  
 un fadfall  
 un llygoden  
 un gynffon  
 un chwilen  
 un fanana

#### **Cenedl Enwau Ymarfer 5**

Ar draws  
 1. dau hedyndyn  
 3. dwy lygoden  
 6. dau fachgen  
 7. dau flodyndyn  
 9. dwy delyndyn  
 11. dwy ddeilen  
 12. dau aderyndyn

I lawr

1. dwy seren  
 2. dau bryfyn  
 4. dwy goeden  
 5. dau lindysyn  
 6. dwy gwningen  
 8. dwy gragen  
 10. dau fochyn  
 12. dwy falwoden

- 1.a) Roedd y ddau lew'n gorwedd o dan y goeden.
- 2.b) Wyt ti'n gallu gweld y ddwy gwningen?
3. b) Mae'r ddwy goeden yn hyfryd.
4. a) Rwyf eisiau tynnu llun y ddau flodyn glas.
5. a) I ble'r aeth y ddwy lygoden?
6. b) Mae'r ddau froga'n edrych yn rhyfedd.
7. a) Roedd y ddwy falwoden yn symud yn araf.
- 8.b) Pa un o'r ddau lwybr sy'n mynd â ni allan o'r jyngl?

## Arddodiaid Ymarfer 1

<b>Cerdyn 1</b>	<b>Cerdyn 2 sy'n cyfateb</b>
Mae fy nant yn brifo, rwy'n mynd	<b>at</b> y deintydd
Es i ar y trê	<b>i</b> Gaerdydd
Yn y siop ddoe, siaradodd e	<b>â</b> Mr Hughes
Dwedais i	<b>wrth</b> Huw <b>am</b> fynd
Gofynnodd y cyflwynydd	<b>i</b> Sara am yr ateb
Rwy'n hoffi gwranddo	<b>ar</b> y radio
Mae'r rhaglen yn apelio	<b>at</b> bobl ifainc
Neithiwr, edrychais i	<b>ar</b> y teledu
Rhaid i mi ysgrifennu	<b>at</b> y Prif Weinidog
Penderfynais ysgrifennu	<b>i'r</b> papur newydd
Mae e'n chwarae rygbi	<b>dros</b> Gymru
Mae'r athro'n syllu'n gas	<b>ar</b> y dosbarth

## Arddodiaid Ymarfer 2

### ar

arna / arnaf	i
arnat	ti
arno	fe/fo
arni	hi
arnom / arnon	ni
arnoch	chi
arnynt / arnyn	nhw

### at

ata / ataf	i
atat	ti
ato	fe/fo
ati	hi
atom / aton	ni
atoch	chi
atynt / atyn	nhw

### o

<b>ohono / ohonof</b>	i
ohonot	ti
ohono	fe/fo
ohoni	hi
ohonom / ohonon	ni
ohonoch	chi
ohonynt / ohonyn	nhw

### heb

hebddo / hebof	i
hebddot / hebot	ti
hebddo	fe/fo
hebddi	hi
hebddon / hebom	ni

hebddoch / heboch	chi
hebddyn /hebddynt	nhw

yn	rhag	rhwng	dros	drwy
yno i / ynof	rhagddo i / rhagof	<b>rhyngo i / rhyngof</b>	drosto i / drosof	<b>drwyddo i / drwof</b>
<b>ynot (ti)</b>	rhagddot ti / rhagot	rhyngot / rhyngot ti	drosot ti / drosot	drwyddot ti / drwot
ynddo / ynddo fe / ynddo fo	<b>rhagddo (fe/fo)</b>	rhyngddo / rhyngddo fe / rhyngddo fo	<b>drosto / drosto fe / fo</b>	drwyddo / drwyddo fe / fo
<b>ynddi (hi)</b>	rhagddi / rhagddi hi	rhyngddi / rhyngddi hi	drosti / drosti hi	<b>drwyddi (hi)</b>
ynon ni / ynom	rhagddon ni / rhagom	<b>rhyngon ni / rhyngom</b>	<b>droston ni / drosom</b>	drwyddon ni / drwom
<b>ynoch (chi)</b>	rhagddoch chi /rhagoch	rhyngoch / rhyngoch chi	drostoch chi drosoch	<b>drwyddoch chi / drwoch</b>
ynddyn / ynddynt	<b>rhagddyn nhw/ rhagddynt</b>	rhyngddyn nhw / rhyngddynt	drostyn nhw drostynt	drywddyn nhw /drwyddynt

### wrth

wrtho / wrthyf	i
wrthot / wrthyf	ti
wrtho	fe/fo
wrthi	hi
wrthon / wrthym	ni
wrthoch / wrthyf	chi
wrthyn / wrthynt	nhw

### gan

<b>gennyf / gen i</b>	i
gennyf / gen ti	ti
<b>ganddo</b>	fe/fo
ganddi	hi
gennym / gennyn / gynnon	ni
<b>gennyf / gynnoch</b>	chi
ganddynt / ganddyn	nhw

### i

<b>imi / i mi</b>
iti / i ti
iddo / iddo fe
<b>iddi (hi)</b>
inni / i ni
ichi / i chi
iddynt / iddyn nhw

### Arddodiaid Ymarfer 3

1. Siarad ...â... 'r tîm i weld beth fydd yn y rhaglen.
2. Trafod beth fydd yn apelio .....at..... ein cynulleidfa.
3. Gwrando ...ar..... syniadau pawb.
4. Gofyn .....i ... bawb yn y tîm i feddwl .....am.... bobl i ddod ar y rhaglen.
5. Dweud .....wrth..... yr ymchwilyr .....am..... ffonio'r bobl hyn.
6. Wedyn, mynd .....at..... y dylunydd i weld a oes eisiau newid y set.
7. Ysgrifennu neges e-bost .....at.... y tîm i ofyn sut mae pethau'n mynd.
8. Chwilio ....am ..... syniadau ar y we.
9. Dod ....â..... phawb .....at..... ei gilydd i drafod y syniadau.

Prynhawn da, **Croeso Aton Ni**, gyda fi Sara Wyn a Huw Williams.

Yn y rhaglen heddiw, byddwn ni'n siarad ...â..... Megan Howells sy'n chwarae pêl-rwyd ....**dros**... Gymru. Byddwn ni'n gofyn ...**iddi**.....hi sôn ...**am**..... ei phrofiadau.

Oes ofn llygod ....**arnoch**.....chi? Wel, bydd Morgan Powell, sy'n cadw llygod, yn dweud .....**wrth**..... Huw pam mae e'n eu hoffi nhw. Ond, os bydd rhai o'r llygod yn mynd ar goll, bydd rhaid i Huw helpu Morgan .....**i**..... chwilio ....**amdanyn**...nhw!

Ydych chi'n adnabod Dylan ac Elizabeth Bowen? Efallai eich bod chi wedi gweld llun .....**ohonyn**..... nhw yn y papur newydd yn ddiweddar. Mae ffordd newydd yn mynd i fwrw eu tŷ nhw i lawr, ond mae Dylan ac Elizabeth eisiau amddiffyn y tŷ (rhag) .....**rhagddi** ..... hi. Maen nhw'n dwlu ....**ar**..... eu cartref ac yn mynd i aros .....**ynddo**..... fe tan i'r Jac Codi Baw ddod, medden nhw! Fe gawn ni glywed rhagor ....**am**..... eu hanes nhw yn nes ymlaen.

Ac yn olaf heddiw, os oes annwyd .....**arnoch**..... chi, does dim rhaid i chi fynd ....**at**..... y meddyg. Bydd Dr. Llinos yn dod yma .....**aton**..... ni i egluro ....**i**..... chi sut gallwch chi wella'r symptomau. Felly, peidiwch â phoeni gormod .....**am**..... yr annwyd. Eisteddwch i lawr, gwrandewch .....**ar**..... Dr Llinos, edrychwch .....**ar**..... weddill y rhaglen, a mwynhewch!

### Arddodiaid Ymarfer 4

1. Am **ba** reswm penderfynoch chi gadw llygod?
2. Oes llawer o **bobl** yn cadw llygod?
3. Gan **bwy** rydych chi wedi dysgu fwyaf am **lygod**?
4. Allwch chi sôn wrthon ni am **rai** o'r profiadau rydych chi wedi'u cael gyda'r llygod?
5. Pam penderfynoch chi hyfforddi'r llygod i **wneud** triciau?
6. Mae rhai pobl yn rhyfeddu at **greaduriaid** sy'n gallu gwneud triciau. Pa mor anodd yw eu hyfforddi nhw?
7. Gyda **phwy** rydych chi'n cystadlu? Ydych chi'n aelod o **glwb**?
8. Ble **yng Nghymru** rydych chi'n cystadlu gyda'r llygod, yn **ne** Cymru neu **yng ngogledd** Cymru?
9. Mae dros **dri** deg o lygod gyda chi. Beth sy'n digwydd os ydych chi'n mynd ar **wyliau**? Sut rydych chi'n ymdopi â **phroblemau** fel hyn?
10. Ydych chi'n dibynnu ar **rywun** arall i'ch helpu chi gyda'r llygod o **ddydd** i **ddydd** hefyd?

11. Mae llawer o bobl yn mynd drwy **fywyd** heb **gadw** anifail anwes. Allwch chi ddweud wrth **bawb** gartref am y pleser rydych chi'n ei gael wrth **ofalu** am y llygod?
12. Diolch yn fawr am **ddod** aton ni heddiw, Morgan – a'r llygod, wrth gwrs!

### Arddodiaid Ymarfer 5

1. b) Heddiw, bydd y rhaglen 'Croeso Aton Ni' yn Llandrindod.
2. a) Mae llawer o bobl yn y stiwdio heddiw.
3. a) Ar ôl recordio'r rhaglen, bydd pawb yn cael coffi yn ffreutur y stiwdio.
4. b) Dyna ddiwedd hanner cyntaf y rhaglen. Dewch 'nôl aton ni mewn munud.
5. a) Yn ail hanner y rhaglen, byddwn ni'n siarad â Dr Llinos.
6. b) Ym mhob cyfres, rhaid i ni gael llawer o raglenni diddorol.

.... **yn** ..... y dechrau, roedd pawb yn mwynhau'r rhaglen 'Croeso Aton Ni'.

Roedd pobl yn gwylio ..... **yn**..... eu cartrefi, gan fwynhau wrth eistedd ..... **mewn**.... cadeiriau esmwyth. .... **yn**..... y stiwdio, roedd y tîm wrth eu bodd ..... **yn**..... eu gwaith. .... **ym**..... mhob rhaglen, roedd llawer o eitemau amrywiol ac ..... **mewn**..... rhai rhaglenni, roedd Sara a Huw, y cyflwynwyr, yn mynd allan i siarad â phobl ..... **mewn**..... ardaloedd ledled Gymru.

Ond .... **yn**..... y diwedd, dechreuodd pobl gael digon ar y rhaglen. Roedd pob rhaglen yr un peth ..... **mewn**..... gwirionedd, .... **yn**..... fy marn i, a doedd dim digon o amrywiaeth. ....**mewn**..... ambell raglen, roedd hi'n amlwg nad oedd y cyflwynwyr yn mwynhau bod allan yn siarad â phobl ..... **yn**..... eu pentrefi a'u trefi eu hunain. ... **ym**..... mhob rhaglen allan yn y gymuned, roedden nhw'n edrych yn ddiflas. Yn amlwg, roedden nhw eisiau aros .... **yn**..... y stiwdio!

## Amser Gorffennol y Ferf Ymarfer 1

### Dod o hyd i ffurfiau:

deffron  
 Agorais  
 Galwais  
 gofynnodd  
 gwaeddodd  
 atebodd  
 Cododd  
 clywaist  
 ddwedais  
 rhoddodd  
 Cymerodd  
 dechreuon  
 cwynodd  
 Clywoch  
 Teithion  
 adawon  
 Llosgon  
 Collon  
 adeiladodd

	<b>-ais</b>	<b>-aist</b>	<b>-odd</b>	<b>-on (ni)</b>	<b>-och</b>	<b>-on (nhw)</b>
<b>Berfau yn yr amser gorffennol sydd yn y darn</b>	agorais galwais ddwedais /dwedais	clywaist	gofynnodd gwaeddodd atebodd cododd rhoddodd cymerodd dwedodd cwynodd adeiladodd	<b>deffron</b> teithion adawon /gadawon collon	clywoch	dechreuon llosgon
<b>Cyfanswm</b>	3	<b>1</b>	9	4	1	2

## Amser Gorffennol y Ferf Ymarfer 2

Roedd hi'n fore braf iawn yn Sycharth, y llys lle mae fy nghartref heddiw. Cyn cael brecwast, .....**cerddais**..... i (CERDDED) o gwmpas yr ardd flodau. Wrth wneud hynny, .....**casglais**..... i (CASGLU) dusw mawr o flodau. Roedden nhw'n hyfryd! Ar ôl cyrraedd yn ôl i'r llys, .....**rhoddais**..... i (RHOI / RHODDI) nhw i Elain, y forwyn, i'w gosod yn y neuadd fawr. ....**siaradais**.... i (SIARAD) am dipyn â'r cogyddion am y wledd oedd i'w chynnal heno.

Wedyn, .....**galwodd**..... Owain (GALW) arnaf i ddod i gael brecwast.

.....**bwytais / bwyteais**..... i (BWYTA) dipyn o uwd ac .....**yfaais**..... i (YFED) ychydig o laeth. Ar ôl ychydig, .....**dechreuodd**..... Owain (DECHRAU) siarad.

“.....**cofiaist / gofiaist**... ti (COFIO) ddweud wrth y cogyddion am y wledd heno, gobeithio, Marged. ....**gwahoddon**..... ni (GWAHODD) lawer iawn o bobl yr ardal i ddod yma'r wythnos diwethaf ac .....**atebon**..... nhw (ATEB) i gyd i

ddweud eu bod nhw'n dod." .....**gwenodd**..... Owain (GWENU) arnaf wrth ddweud hyn.

"Rwy'ti'n gwybod yn iawn bod popeth o dan reolaeth," .....**atebais**.... i (ATEB). .....**dwedodd/dywedodd**..... y cogyddion (DWEUD) mai cig oen a physgod fydd ar y fwydlen heno. ....**dalion**..... nhw'r (DAL) pysgod yn y pysgodlyn y bore 'ma."

